Cyflawni dyheadau pobl Prydain

Hydref 2007

Adroddiad Rhag-gyllidebol (PBR) ac Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant (CSR) 2007
Yr hyn y mae'r PBR/CSR yn ei olygu i Gymru

HM TREASURY

Cymru

Cyflawni dyheadau Pobl Prydain

Amcan y Llywodraeth yw adeiladu economi gadarn a chymdeithas deg, lle ceir cyfle a diogelwch i bawb. Mae'r daflen hon yn darparu crynodeb o'r hyn y mae'r cyhoeddiadau allweddol yn Adroddiad Rhag-gyllidebol ac Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant 2007 yn ei olygu i Gymru, gan gynnwys:

- **sicrhau y gellir trosglwyddo lwfansau treth etifeddiant rhwng parau priod a phartneriaid sifil** a bod trothwy o £600,000 ar unwaith, ac yn codi i £700,000 erbyn 2010-11;
- **bydd gwariant gan Lywodraeth Cynulliad Cymru £2.2 biliwn yn uwch yn 2010-2011 o'i gymharu â 2007-08**;
- **camau pellach i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd** gan gynnwys diwygio a chynyddu trethiant teithiau awyr er mwyn adlewyrchu'r costau amgylcheddol yn well, a chronfa £1 biliwn ar gyfer trawsffurfio'r amgylchedd;
- **camau i symleiddio'r system dreth a chymorth busnes** i alluogi busnesau i ganolbwyntio ar gynyddu cynhyrchiant, a allai fod o fudd i 175,000 o fusnesau yng Nghymru;
- **diwygio'r dreth ar enillion cyfalaf drwy gyflwyno un gyfradd o 18 y cant o 2008-09 ymlaen,** gan sicrhau system fwy cynaliadwy sy'n syml ar gyfer trethdalwyr ac sy'n rhyngwladol gystadleuol; a
- **chadarnhau blaenoriaethau gwasanaeth cyhoeddus y Llywodraeth a phennu cyllideb pob adran ar gyfer y 3 blynedd nesaf** gan ddisgwyl y bydd cyfanswm gwariant cyhoeddus yn cynyddu ar gyfradd o 2.1 y cant y flwyddyn rhwng 2007-08 a 2010-11.

Datganoli prosesau gwneud penderfyniadau

Mae'r Llywodraeth o'r farn mai'r ffordd orau o wella cynhyrchiant gwledydd a rhanbarthau'r DU a goresgyn gwahaniaethau rhanbarthol o ran perfformiad economaidd yw rhoi'r rhyddid a'r hyblygrwydd i bob gwlad a rhanbarth i fanteisio ar ffynonellau twf lleol.



Mae'r Llywodraeth yn gweithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru i hybu twf economaidd, cyflogaeth lawn a ffyniant i holl bobl Cymru.

Sefydlogrwydd macro-economaidd

Mae economi Prydain wedi tyfu yn ystod 60 chwarter yn olynol ac mae chwyddiant yn parhau i fod yn isel. Mae'r sefydlogrwydd hwn yn golygu bod Prydain mewn sefyllfa gref i ymateb i heriau economaidd byd-eang ac i fanteisio ar gyfleoedd y degawd sydd i ddod. Mae Adroddiad Rhag-gyllidebol ac Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant 2007 yn nodi:

- **y disgwylir twf yn yr economi** o 3 y cant yn 2007, ac o 2 i 2.5 y cant yn 2008;
- **y disgwylir i chwyddiant aros yn isel ac yn sefydlog** ar tua 2 y cant; a
- **bod cyllid cyhoeddus yn parhau i fod yn gadarn, gan ragweld benthyca £38** biliwn yn 2007-08 a pharhau i ostwng bob blwyddyn am 5 mlynedd nesaf yr amcanestyniad, a chyda dyled yn is nag yn yr UD, Japan, ac ardal yr ewro.

Twf a ffyniant cynaliadwy

Mae cyflymder newid yn yr economi fyd-eang yn dwysáu, gyda mwy o bobl, buddsoddiad a nwyddau'n croesi ffiniau rhyngwladol. Mae'r Llywodraeth yn ymrwymedig i sicrhau bod y DU yn barod i ymateb i'r newidiadau hyn. Mae perfformiad economaidd cymharol Prydain wedi gwella yn ystod y blynyddoedd diweddar, gyda chynhyrchiant bellach yn uwch nag yn yr Almaen ac yn symud yn agosach at lefel Ffrainc. Bydd economi hyblyg, mentrus a thra medrus yn helpu cynhyrchiant i dyfu'n gyflymach ac yn sicrhau bod pob rhanbarth o'r DU mewn sefyllfa dda i ffynnu yn yr economi fyd-eang. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod amrywiadau rhanbarthol sylweddol mewn cynhyrchiant: yn 2005, roedd y Gwerth Ychwanegol Crynswth y pen yng Nghymru 23% yn is na chyfartaledd y DU. Mae Adroddiad Rhag-gyllidebol ac Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant 2007 yn cyhoeddi mesurau newydd i wella cynhyrchiant yng Nghymru, gan gynnwys:

- **mwy o fuddsoddi mewn gwyddoniaeth** Llywodraeth Cynulliad Cymru sydd i wneud ei phenderfyniadau ei hun mewn meysydd datganoledig; a
- **thri adolygiad symleiddio treth a phecyn sy'n cynnwys mwy nag 20 o gamau i symleiddio treth,** a allai fod o fudd i 175,000 o fusnesau yng Nghymru.

Cynhyrchiant - allbwn fesul gweithiwr



Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol

Tegwch a chyfle i bawb

Mae'r Llywodraeth yn ymrwymedig i hybu tegwch a chyfle i bawb er mwyn sicrhau bod pawb yn elwa o ffyniant cenedlaethol cynyddol. Mae Adroddiad Rhag-gyllidebol ac Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant 2007 yn nodi'r camau y mae'r Llywodraeth yn eu cymryd i hybu cyfleoedd cyflogaeth i bawb, mynd i'r afael â thlodi plant, cefnogi teuluoedd i gydbwyso eu bywydau gwaith a theuluol, a hybu cynilo a sicrhau diogelwch i bawb yn eu henaint. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **sicrhau bod pob pâr priod a phartneriaid sifil yn elwa'n awtomatig o ddwbl y lwfans treth etifeddiant safonol** - £600,000 ar unwaith, yn codi i £700,000 erbyn 2010-11;
- **cynyddu elfen blant y Credyd Treth Plant** o £25 arall ym mis Ebrill 2008 ac o £25 arall ym mis Ebrill 2010, a fydd er lles y 200,000 o deuluoedd yng Nghymru sy'n derbyn elfen blant y Credyd Treth Plant;
- **cyflwyno'r Credyd Mewn Gwaith yn genedlaethol o fis Ebrill 2008 ar gyfradd o £40, gan gynnal cyfradd o £60 yn Llundain,** a fydd er lles y 30,370 o rieni sengl yng Nghymru;
- **uwchraddio gwarant isaf safonol y Credyd Pensiwn i £124 yn 2008/09, a fydd er lles y 202,000 o aelwydydd yng Nghymru sy'n derbyn Credydau Pensiwn;**
- **rediwygio'r dreth ar enillion cyfalaf drwy gyflwyno un gyfradd o 18 y cant o 2008-09 ymlaen,** gan sicrhau system fwy cynaliadwy sy'n syml i drethdalwyr ac yn rhyngwladol gystadleuol;

Cyflogaeth yng Nghymru



Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) (Mai-Gorffennaf, wedi'i addasu yn ôl y tymor)

- **diwygio'r rheolau preswylio a chartrefu** i sicrhau bod y trefniadau cyfredol yn gweithredu'n deg, yn ogystal â chynnal cystadleurwydd y DU; a;
- **diwygiadau pellach i foderneiddio'r system dreth,** a nifer o fesurau i fynd i'r afael â **thwyll treth ac osgoi talu treth.**

Cymunedau cryfach a gwell ansawdd bywyd

Yn yr oes hon o ddigonedd o ddewis a chyfleoedd, nod y Llywodraeth yw darparu ansawdd bywyd uwch a gwneud Prydain yn lle gwell i fyw ynddo – yn enwedig drwy fodloni awydd pobl am wasanaethau cyhoeddus mwy ymatebol, tai addas a fforddiadwy ar gael iddynt, a chymunedau cryf, cydlynol a diogel. Mae Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant 2007 yn darparu arian ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru. Bydd adnoddau yn 2010-11 o'i gymharu â 2007-8 £2.2 biliwn yn uwch yng Nghymru.

Mewn meysydd datganoledig, Llywodraeth Cynulliad Cymru sydd i benderfynu sut i ddyrannu adnoddau, polisïau a blaenoriaethau.

Yn ogystal, mae Adroddiad Rhag-gyllidebol ac Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant 2007 yn amlinellu:

- **buddsoddi yng ngallu gwrthderfysgaeth y DU,** gyda chyfanswm y gwariant ar wrthderfysgaeth, cudd-wybodaeth a gwrthsefyll yn cynyddu o £2.5 biliwn yn 2007-08 i £3.5 biliwn yn 2010-11 a chydag un gyllideb ddiogelwch newydd ar gyfer gwrthderfysgaeth; a
- **sicrhau etifeddiaeth barhaol i'r genedl o ran diwylliant a chwaraeon drwy dalu am gost adeiladu llawn y Gêmau Olympaidd yn ystod y tair blynedd nesaf.**

Byd mwy diogel, teg ac amgylcheddol gynaliadwy

Mae'r Llywodraeth yn ymrwymedig i gyflwyno twf cadarn sy'n amgylcheddol gynaliadwy yn y DU ac arwain yr ymateb rhyngwladol i heriau byd-eang hirdymor newid yn yr hinsawdd, hybu heddwch a sefydlogrwydd, a dileu tlodi ar draws y byd. Mae Adroddiad Rhag-gyllidebol ac Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant 2007 yn cyhoeddi:

- **Cronfa Trawsffurfio'r Amgylchedd o dros £1.1 biliwn** i gefnogi defnyddio technoleg ynni newydd yn y DU a thramor;
- **diwygio a chynyddu trethiant teithiau awyr** er mwyn adlewyrchu'r costau amgylcheddol yn well;
- **cynnydd mewn cymorth tramor fel cyfran o'r incwm cenedlaethol** o 0.37 y cant yn 2007-08 i 0.56 y cant yn 2010-11, gan gyflawni ein hymrwymiadau rhyngwladol; a
- **mwy o arian ar gyfer amddiffyn, er mwyn helpu i sicrhau heddwch a sefydlogrwydd rhyngwladol** gan gynnwys arian ar gyfer dwy long awyrennau newydd a cherbydau wedi'u diogelu newydd i'r Fyddin a chynnal ataliad niwclear y DU.

Sut mae arian trethdalwyr yn cael ei wario

Disgwylir i gyfanswm gwariant cyhoeddus fod oddeutu £589 biliwn eleni, tua £9,700 ar gyfer pob dyn, menyw a phlentyn yn y DU. Disgwylir iddo gynyddu i £617 biliwn yn 2008-09, £647 biliwn yn 2009-10 a £678 biliwn yn 2010-11. Mae'n cynnwys gwariant gan y Gweinyddiaethau Datganoledig.

Sut mae arian trethdalwyr yn cael ei wario



Cyfanswm y gwariant a reolir - £589 biliwn

I Mae gwariant arall yn cynnwys gwario ar wasanaethau cyhoeddus cyffredinol; hamdden, diwylliant, y cyfryngau a chwaraeon; cydweithio a datblygu rhyngwladol; pensiynau gwasanaeth cyhoeddus; ynghyd â gwariant heb ei ddyrannu hyd yn hyn a rhai addasiadau cyfrifo.

2 Mae amddiffyn cymdeithasol yn cynnwys taliadau credyd treth sy'n fwy nag atebolrwydd unigolyn i dalu treth.

Ffynhonnell: Trysorlys EM, amcanestyniadau 2007-08. Dosberthir gwariant i swyddogaethau gan ddefnyddio dulliau a nodir mewn safonau rhyngwladol. Mae'n bosib na fydd y ffigurau'n cyfateb i'r cyfanswm o ganlyniad i dalgrynnu.

Ffynhonnell trethi



Cyfanswm derbynebau - £551 biliwn

I Mae'r derbyniadau eraill yn cynnwys trethi cyfalaf, trethi stamp, tollau cartref ar gerbydau, a rhai derbyniadau treth a di-dreth eraill (e.e. llog a difidendau).

Ffynhonnell: Trysorlys EM, amcanestyniadau 2007-08. Mae'n bosib na fydd y ffigurau'n cyfateb i'r cyfanswm o ganlyniad i dalgrynnu.

Argraffwyd ar bapur yr ailgylchwyd o leiaf 75% ohono.
Ailgylchwch ef eto pan fyddwch wedi gorffen ag ef

© Hawlfraint y Goron 2007
PU389 – Cymru

Cysylltwch â ni

Hoffai'r Llywodraeth gael eich barn
wrth baratoi ar gyfer Cyllideb 2008.

Ysgrifennwch eich sylwadau drosodd a dychwelwch y dudalen hon
mewn amlen (does dim angen stamp) i'r cyfeiriad canlynol:

Freepost Plus RRGJ-ZRHG-RRRU
HM Treasury Budget Information
Unit 11 Crusader Industrial Estate
167 Hermitage Road
London
N4 1LZ

Gwybodaeth bellach

I archebu mwy o gopïau o'r daflen hon, neu i gael fersiwn Gymraeg
neu fformat arall ohoni, ffoniwch:

020 7270 4558

I gael mwy o wybodaeth am yr Adroddiad Rhag-gyllidebol
a chynlluniau gwario'r Llywodraeth ewch i wefan y Trysorlys yn:

www.hm-treasury.gov.uk

**Gellir cael fersiwn lawn o Adroddiad Rhag-gyllidebol
ac Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant 2007
o'r l.lyfrfa ac o siopau llyfrau da.**

Nodwch eich sylwadau yma